Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Y gwersi a ddysgwyd yn sgil 100 o gytuniadau

## Gwaith craffu gan y Senedd ar gytundebau rhyngwladol

Mawrth 2026



senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Mae Llywodraeth y DU yn negodi cytuniadau ar ran y DU ac yn cytuno arnynt drwy'r Uchelfraint Frenhinol. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgysylltu â'r llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig, ond y sefydliadau hyn sydd yn aml yn gyfrifol am roi cytuniadau ar waith. Nid yw cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, na'u rhoi ar waith, yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl.

**2.** Gall cytuniadau addasu neu gwmpasu materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gall gwmpasu materion sydd â goblygiadau polisi pwysig i Gymru. Gall y broses o weithredu'r cytuniadau hyn olygu bod angen gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru, gall osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, a gall olygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus Cymru eu rhoi ar waith.

**3.** Ym mis Ionawr 2019, yn ystod y trafodaethau ar Brexit, Senedd Cymru oedd y senedd ddatganoledig gyntaf i sefydlu dull pwrpasol ar gyfer craffu ar gytuniadau rhyngwladol – dull a gafodd ei arwain ar y pryd gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd.

**4.** Daeth y broses hon yn sgil cytuniadau a osodwyd yn Senedd y DU o dan y broses a gafodd ei ffurfioli yn *Neddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010*. Fel rhan o'r broses, gofynnwyd a oedd cytuniad yn cwmpasu meysydd datganoledig, neu a oedd ganddo oblygiadau polisi pwysig i Gymru. Os felly, byddai'r pwyllgor yn archwilio a roddwyd sylw i faterion arwyddocaol ac yn adrodd i'r Senedd, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a seneddau eraill y DU.

**5.** O bryd i'w gilydd, defnyddir y term 'cytundebau rhyngwladol' i gyfeirio at gytuniadau hefyd, ac rydym yn defnyddio'r termau hyn yn gyfnewidiol.

## Gwaith craffu yn y Chweched Senedd

**6.** Yn y Chweched Senedd, cytunodd y Pwyllgor hwn i ystyried cytundebau anfasnachol rhyngwladol; yn y cyfamser, cytunodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i ystyried cytundebau masnach rhyngwladol.


**7.** Mae mwyafrif y cytuniadau yn gytundebau anfasnachol, ac maent wedi cael eu hystyried gan ein Pwyllgor ers ein sefydlu ym mis Mehefin 2021. Hyd yn hyn, rydym wedi ystyried 100 o gytuniadau, ac mae gwaith craffu mwy manwl wedi bod yn ofynnol mewn perthynas â 33 ohonynt yn sgil eu harwyddocâd tybiedig i Gymru.

**8.** Rydym yn cael gwybodaeth yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ac yn hysbysu pwyllgorau eraill y Senedd am gytuniadau sydd o fewn eu cylch gwaith. Rydym wedi datblygu corff sylweddol o brofiad ac arbenigedd, a'r Senedd yw'r unig ddeddfwrfa ddatganoledig o hyd sydd â phroses bwrpasol ar gyfer craffu ar gytuniadau. Rydym yn adrodd i'r Senedd ar ein hasesiadau a'n canfyddiadau, ac yn rhannu ein canfyddiadau â Phwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi.

**9.** Ers sefydlu proses y Senedd yn 2019, mae rhai o bwyllgorau Senedd y DU wedi cynnal cyfanswm o bedwar ymchwiliad at ddibenion craffu ar gytuniadau'r DU. Mae'r Pwyllgor hwn wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar i'r ymchwiliadau hyn.[1]

[1] Gellir cael rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1

**Craffu ar gytuniadau: Proses Senedd y DU, o'i chymharu â phroses y Senedd**




## Canlyniadau

**10.** Mae ein dull o graffu ar gytuniadau wedi arwain at y canlyniadau cadarnhaol a ganlyn:

- Wedi cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru na fyddai fel arall yn cael ei rhoi i'r Senedd na Senedd y DU, gan gynnwys ar gyfer ymchwiliadau pwyllgor sy'n mynd rhagddynt.
- Wedi sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus.
- Wedi gwella ein dealltwriaeth o oblygiadau datganoledig rhwymedigaethau rhyngwladol o safbwynt cyfansoddiadol a safbwynt ymarferol.
- Wedi darparu gwybodaeth newydd am ffyrdd rhynglywodraethol o weithio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu ynghylch y canlynol: ei lefel o ymwneud â'r broses o negodi a gweithredu cytundebau rhyngwladol; pa un a oedd ganddi wybodaeth flaenorol fod cytundeb wedi'i gwblhau; achosion lle mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y pedair Llywodraeth ar gyfer rhai categorïau o gytundebau rhyngwladol; y cysylltiadau sy'n bodoli rhwng cytundebau rhyngwladol lluosog a mecanweithiau domestig; dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'i rhwymedigaethau rhyngwladol; ac achosion lle mae ganddi farn wahanol i Lywodraeth y DU.
- Wedi hysbysu Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi am achosion lle mae disgrifiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o gyfraniadau datganoledig yn ystod y broses o ddatblygu cytuniad wedi rhedeg yn groes i'w gilydd.
- Wedi nodi achosion lle mae gwybodaeth am ddatganoli ar goll o ddogfennau ar gytuniadau, gan gynnwys ar gyfranogiad Llywodraeth Cymru a barn Llywodraeth y DU ar gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.
- Wedi sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn eglur pryd mae Biliau'r DU sy'n destun cydsyniad y Senedd yn croestorri â rhwymedigaethau rhyngwladol, ac i roi rhagor o wybodaeth.

# 2. Materion allweddol

## Proses

**11.** Yn sgil y setliad datganoli, mae gofyn i'r Senedd a Gweinidogion Cymru gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU a'u rhoi ar waith, gan

gynnwys y rhwymedigaethau sydd wedi'u cynnwys mewn cytuniadau a wneir gan Lywodraeth y DU. Mae Cod Gweinidogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â chyfraith ryngwladol a rhwymedigaethau cytuniadau.

**12.** Yn bwysig i'r Senedd, nid yw Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn rhoi rôl ffurfiol i'r deddfwrfeydd datganoledig. Nid yw chwaith yn cynnwys dyletswydd i ymgynghori â'r deddfwrfeydd datganoledig, gan gynnwys cyn i Senedd y DU ddod i'w chasgliadau.

**13.** Nodwedd reolaidd o waith craffu'r Senedd yw'r gwaith craffu a wneir gan bwyllgorau polisi perthnasol eraill, a'r broses o gyfnewid gohebiaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gyda'r nod o geisio rhagor o wybodaeth. Yn sgil hynny, nid yw bob amser yn bosibl cwblhau'r gwaith craffu o fewn y cyfnod cychwynnol o 21 diwrnod a roddwyd i Senedd y DU o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, ac felly nid yw'n bosibl rhannu gwybodaeth berthnasol i lywio ei gasgliadau.

## Ein barn ni

**14.** Fel y nodwyd gennym dro ar ôl tro mewn tystiolaeth amrywiol a gyflwynwyd i bwyllgorau Senedd y DU, rydym yn gresynu nad yw proses Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn rhoi rôl ffurfiol i'r deddfwrfeydd datganoledig, gan gynnwys achosion lle mae cytuniadau'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig neu'n dod oddi mewn iddo, neu lle mae goblygiadau polisi sylweddol i Gymru yn sgil cytuniadau.

**15.** Nid yw bob amser yn bosibl i'r Senedd wneud ei gwaith craffu ar gytuniadau o fewn y cyfnod cychwynnol o 21 diwrnod o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Fodd bynnag, mae'r broses a sefydlwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn dangos bod mewnbwn gan ddeddfwrfeydd datganoledig yn bosibl, ac y gall arwain at ganlyniadau pwysig, er gwaethaf cyfyngiadau'r Ddeddf. Felly, rydym yn cefnogi galwadau am sicrhau digon o amser i ganiatáu i'n canfyddiadau gael eu cynnwys mewn modd ystyrlon yn y broses o graffu ar gytuniadau yn San Steffan.

**16.** Credwn fod y Senedd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at y broses o graffu ar gytuniadau'r DU yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r Pwyllgor hwn wedi bod yn falch o'r cyfle i gyflawni'r gwaith hwn.

**17.** Rydym yn parhau i fod o'r farn bod gwella'r gwaith craffu a wneir ar gytuniadau yn y DU yn hanfodol ac yn hir ddisgwyliedig. Mae ein safbwynt, fel y'i

mynegir yn rheolaidd yn ein hadroddiadau a'n tystiolaeth i ymchwiliadau, yn safbwynt yr ydym yn ei arddel o hyd.

**18.** Pe bai gan y deddfwrfeydd datganoledig rôl ffurfiol yng ngwaith craffu seneddol y DU, lle mae ein barn yn cael ei chydnabod a'i chynnwys, byddai hyn ond yn gwella'r broses yn ein barn ni. Byddai hyn hefyd yn rhoi mwy o gyfle i Aelodau o Senedd y DU ymgorffori casgliadau pwysig o safbwynt datganoledig.

**19.** Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir i bwysigrwydd llywodraethau a seneddau datganoledig mewn tystiolaeth, ymchwiliadau ac adroddiadau seneddol y DU. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw hyn wedi arwain at newid a fyddai'n cynnwys mewnbwn gan ddeddfwrfeydd datganoledig, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer rôl ffurfiol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn galw am rôl ffurfiol i'r deddfwrfeydd datganoledig ym mhroses Senedd y DU ar gyfer craffu ar gytuniadau.

**Casgliad 1.** Rydym yn annog ein pwyllgor olynol i barhau â'r gwaith o graffu ar gytuniadau yn y Seithfed Senedd, ac i gyfrannu at drafodaethau â Senedd y DU a Llywodraeth y DU yn y dyfodol ar gyfranogiad y cyrff datganoledig yn y gwaith o graffu ar gytuniadau.

## Memoranda Esboniadol

**20.** Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â datganoli mewn Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â chytundebau yn parhau i fod yn anghyson. Yn flaenorol, nododd y Pwyllgor enghreifftiau o achosion lle nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael am gyfranogiad Llywodraeth Cymru, nac eglurder ynghylch barn Llywodraeth y DU ar gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.

**21.** Ers hynny, rydym wedi nodi a chroesawu rhywfaint o gynnydd yn y maes hwn. Yn aml, ond nid bob amser, caiff y wybodaeth a ganlyn ei chynnwys:

- asesiad lefel uchel ynghylch a yw'r cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl neu faterion datganoledig, neu'r ddau;
- a ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig; a
- os yw'n berthnasol, cadarnhad bod y llywodraethau datganoledig yn fodlon.

**22.** Fodd bynnag, nid yw'r lefel hon o fanylder yn ddigonol i adlewyrchu goblygiadau ymarferol y broses o weithredu cytuniadau o safbwynt datganoledig.

**23.** Yn aml, mae'r Pwyllgor yn cael gwybodaeth am y tro cyntaf wrth gyfnewid gohebiaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Er enghraifft, mewn perthynas â Chonfensiwn Nawdd Cymdeithasol y DU a'r Swistir, gwnaeth y cyn Brif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, amlinellu cylch gwaith a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, y Senedd a'r byrddau iechyd lleol o ran y Confensiwn.

**24.** Credwn fod modd defnyddio'r enghreifftiau o arfer gorau sy'n bodoli fel glasbrint ar gyfer Memorandwm Esboniadol sy'n darparu lefel briodol o wybodaeth. Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig yw'r enghraifft orau o hyn o hyd. Roedd y dogfennau cysylltiedig yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ddatganoli, gan gynnwys rhestru erthyglau penodol yn cynnwys dyletswyddau'r llywodraethau datganoledig.

**25.** Ar ben hynny, o ganlyniad i ofyniad cyfreithiol ar wahân parthed llunio adroddiad ar y broses o weithredu'r Confensiwn hyd at ei gadarnhau, roedd llawer mwy o wybodaeth ar gael yn hawdd i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei ystyriaeth nag sydd fel arfer. Taflodd ymateb Llywodraeth Cymru fwy o oleuni eto ar y gwahaniaethau polisi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a llywiodd ymchwiliad byw gan y Senedd i brofiadau menywod mudol o drais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol.

**26.** Yn olaf, nid yw Memoranda Esboniadol safonol ar gyfer cytuniadau yn cynnwys adrannau a geir fel arfer mewn dogfennau sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth ddomestig, megis tablau cymhwysiad tiriogaethol neu asesiadau effaith, a fyddai'n ychwanegiadau defnyddiol.

## Ein barn ni

**27.** Rydym yn parhau i nodi bod gwybodaeth am ddatganoli ar goll o'r Memoranda Esboniadol. Mae gwybodaeth fanwl am ddatganoli o gymorth mawr inni wrth i ni graffu ar oblygiadau pob cytuniad i Gymru. Ar ben hynny, mae'n cyflymu ein proses graffu, sydd yn ei dro yn cynyddu ein gallu i rannu ein barn â Senedd y DU o fewn y cyfnod cychwynnol o 21 diwrnod o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010.

**28.** Mewn achosion lle mae gwybodaeth wedi'i chynnwys, nid yw bob amser yn ddigon manwl i'r Pwyllgor hwn ei defnyddio i ddod i gasgliadau. Byddai cael gwybodaeth am waith ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig wrth ddatblygu

cytuniadau a'r effeithiau a ragwelir o ran cymhwysedd datganoledig yn arbennig o ddefnyddiol.

**29.** Er enghraifft, gwnaethom nodi'n ddiweddar nad oedd y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Cytuniad y DU a'r Almaen ar Gyfeillgarwch a Chydweithrediad Dwyochrog yn nodi a oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r cytundeb, nac yn nodi ychwaith a oedd ei mewnbwn a'i syniadau wedi cael eu hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r trafodaethau. Fodd bynnag, cafodd y wybodaeth hon ei chynnwys mewn perthynas ag ymgynghoriad Llywodraeth y DU â busnesau penodol, grwpiau buddiant, academyddion ac arbenigwyr eraill ym maes cysylltiadau rhwng y DU a'r Almaen.

**30.** Ar y llaw arall, mewn achosion lle nad oes unrhyw waith ymgysylltu yn digwydd neu lle na ragwelir unrhyw effaith, mae'n ddefnyddiol i'r ddogfennaeth gadarnhau hyn.

**31.** Byddai cael fformat a dull cyson o gyflwyno gwybodaeth ar ddatganoli o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith craffu. Byddem yn croesawu gofyniad ar Lywodraeth y DU i gynnwys gwybodaeth benodol ar ddatganoli, fan lleiaf.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ymgynghori â'r llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig, gyda'r bwriad o wella'r wybodaeth am ddatganoli a ddarperir mewn Memoranda Esboniadol ar gytuniadau.

## Gweithredu

**32.** Nid yw gwaith craffu'r Senedd ar gytuniadau wedi'i gyfyngu i'r broses o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Mae'r gwaith hwn yn estyn i'r broses o'u gweithredu. Mae llawer o enghreifftiau pwysig o bwyllgorau'r Senedd yn gwneud gwaith dilynol ar weithredu cytuniadau mewn meysydd datganoledig, megis Confensiwn UNESCO ar gyfer Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, Cytundeb Partneriaeth Can Mlynedd y DU ac Wcráin, a Chyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol Ardaloedd y tu hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol ("Cytuniad BBNJ").

**33.** Yn 2021, yn y ddogfen Diwygio ein Hundeb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Mater i'r gweinyddiaethau datganoledig, gan ymgynghori â Llywodraeth y DU (a gweinyddiaethau eraill yn ôl yr angen) a'u deddfwrfeydd datganoledig wedi hynny, ddylai fod ystyried sut y dylid gweithredu rhwymedigaethau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig sy'n deillio o gytundebau rhyngwladol y DU.*

*Byddai hyn yn cynnwys ystyried a ddylai'r sefydliadau datganoledig roi'r rhwymedigaethau hynny ar waith drwy eu deddfwriaeth eu hunain neu gytuno eu bod yn cael eu cynnwys yn neddfwriaeth y DU/Prydain Fawr."*

**34.** Ers hynny, rydym yn aml wedi archwilio'r defnydd o ddeddfwriaeth, ynghyd â'r broses o'i gweithredu a'i goblygiadau. Er enghraifft, mae deddfwriaeth ar ôl Brexit wedi lleihau'r rôl graffu a roddir i Senedd y DU mewn rhai meysydd, drwy awdurdodi'r defnydd o is-ddeddfwriaeth i weithredu cytundebau rhyngwladol ym maes gofal iechyd. Rhybuddiodd y Pwyllgor fod risg y gallai'r Senedd gael ei hepgor o brosesau o'r fath, gan gynnwys mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, yn ystod ei waith craffu ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol a gafodd eu gosod gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU. Yn sgil gwelliannau dilynol a wnaed i'r Bil, cafwyd sicrwydd y byddai'r Senedd yn parhau i oruchwylio'r trefniadau gweithredu o dan gytundebau gofal iechyd rhyngwladol yn y dyfodol ac yn parhau i graffu arnynt, er y byddai hynny'n digwydd drwy reoliadau a fyddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn annilysu.

**35.** Rydym wedi trafod nifer o femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar Filiau'r DU a osodwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys rhwymedigaethau cytuniadau. Rydym wedi codi pryderon penodol ynghylch y defnydd o ddeddfwriaeth y DU sydd wedi mynd rhagddi heb ganiatâd y Senedd i'w gweithredu, gan gynnwys achosion lle mae pwerau wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig er gwaethaf y ffaith bod caniatâd wedi'i wrthod.

**36.** Er enghraifft, mewn perthynas â chytuniad rhwng y DU a'r Swistir ar gydnabod cymwysterau proffesiynol, gwnaethom drafod y mater hwn gyda'r Prif Weinidog ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, pan ymddangosodd ger ein bron i roi tystiolaeth ym mis Medi 2023. Roedd hyn yng ngoleuni'r ffaith bod y Senedd wedi gwrthod rhoi cydsyniad ar gyfer *Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022*, y gellid defnyddio ei phwerau i roi'r cytundeb ar waith. Pan ofynnwyd sut y gallai'r mater hwn ddatblygu neu gael ei ddatrys yn y dyfodol, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd:

*"… I don't think there is a way of resolving them in principle, because here was a piece of legislation that the Senedd denied consent on two separate occasions, where I could see no compelling case for the United Kingdom insisting on legislating on our behalf. I don't see where the Sewel convention could be*

> *overridden in it. And yet we have this impasse now where we are going to be using powers that we sought not to have in the first place."*

**37.** Yna, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"… while I can't resolve it in principle … in a sheer pragmatic way, we will use those powers when we think they are in the interests of Wales."*

## Ein barn ni

**38.** Rydym yn ailadrodd ein pryderon y gallai is-ddeddfwriaeth y DU gael ei defnyddio i hepgor y Senedd o'r broses o roi rhwymedigaethau cytuniad ar waith mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, a hynny mewn achosion lle byddai deddfwriaeth sylfaenol fel arfer yn cael ei defnyddio.

**39.** Rydym hefyd yn ailadrodd ein pryderon ynghylch cydsyniad deddfwriaethol a Chonfensiwn Sewel, mewn perthynas â Biliau'r DU sy'n rhoi rhwymedigaethau cytuniadau ar waith mewn achosion lle mae cydsyniad y Senedd wedi'i wrthod.

**Casgliad 2.** Ein barn gadarn, ers tro byd, yw mai'r Senedd ddylai fod yn gyfrifol am ddeddfu dros Gymru ar faterion sydd o fewn ei chymhwysedd datganoledig. Mae hyn yn cynnwys rhoi rhwymedigaethau rhyngwladol ar waith.

## Atodiad 1 – tystiolaeth a ddarparwyd i ymchwiliadau Senedd y DU ar graffu ar gytuniadau

- Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd – Arferion gwaith (2020) (a gyflwynwyd gan y pwyllgor â'n rhagflaenodd, sef y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol).
- Y Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol – Arferion gwaith (blwyddyn yn ddiweddarach) (2021).
- Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol – Craffu ar gytuniadau yn yr 21ain ganrif (2024).
- Y Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol – Gwaith craffu yn San Steffan ar gytuniadau: Mynd i'r afael â'r bwlch atebolrwydd (2025).